Arweiniad rhyw a pherthynas

Mawrth 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

℗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad	1
Cefndir	2
Prif ganfyddiadau	3
Argymhellion	6
Cynllunio a pholisi mewn ysgolion	7
Trefniadaeth y cwricwlwm ac addysgu	10
Gweithio gyda'r gymuned ehangach	14
Rheoli ac arfarnu addysg rhyw a pherthynas	17
Datblygiad staff	19
Cyfrinachedd ac amddiffyn plant	20
Cyfeiriadau	21

Cyflwyniad

1 Yn ei gylch gorchwyl i Estyn ar gyfer 2006-2007, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru am arfarniad o effaith Cylchlythyr 11/02: Addysg Rhyw a Pherthynas mewn Ysgolion (y Cylchlythyr), mewn hyrwyddo addysg rhyw a pherthynas effeithiol mewn ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac annibynnol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr arfarniad hwnnw. Mae'n dilyn arfarniad cynharach o addysg rhyw a pherthynas a gynhaliwyd yn 2004/05: "Addysg Rhyw a Pherthynas: Gweithredu'r Arweiniad yng Nghylchlythyr 11/02 mewn Ysgolion yng Nghymru 2004 – 2005" sydd ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

2 Cynhelir yr arfarniad hwn yng nghyd-destun gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru am wlad iachach sydd wedi'i haddysgu'n well, a fynegir yn 'Cymru: Gwlad Well'.

3 Mae'r arfarniad yn adrodd ar effaith yr arweiniad yn y Cylchlythyr. Mae'n ystyried y graddau y mae ysgolion yn awr yn gwella ymwybyddiaeth pobl ifanc o ryw a pherthynas fel yr amlinellir yn y Cylchlythyr, nid yn unig trwy addysgu'r ffeithiau biolegol iddynt, ond hefyd trwy eu helpu i archwilio teimladau, perthynas a dilemâu moesol. Mae hefyd yn ystyried y modd y mae'r Cylchlythyr wedi helpu athrawon a gweithwyr eraill i fynd i'r afael â meysydd o ansicrwydd ynghylch beth mae rhyw a pherthynas yn ei olygu a sut dylid addysgu rhyw a pherthynas mewn ysgolion. Yn yr arfarniad hwn, cyflwynir tystiolaeth ar y modd y mae polisi ac arfer wedi cael eu ffurfio ers cyhoeddi'r Cylchlythyr bedair blynedd yn ôl, yn ogystal â pha mor dda y mae partneriaethau yn gweithio i gynllunio a chyflwyno addysg rhyw a pherthynas. Nodir arfer dda mewn nifer o astudiaethau achos trwy gydol yr adroddiad.

4 Mae'r arfarniad hwn yn defnyddio:

- ymateb manwl i holiadur gan athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac annibynnol;
- cyfarfodydd ag athrawon, penaethiaid a disgyblion mewn ystod o ysgolion ledled Cymru;
- cyfarfodydd ag ymgynghorwyr addysg bersonol a chymdeithasol awdurdodau lleol a chydlynwyr ysgolion iach;
- cyfarfod â'r athro sy'n gyfrifol a phobl ifanc o ddarpariaeth ar gyfer mamau yn eu harddegau;
- trafodaethau â byrddau iechyd lleol;
- archwilio polisïau a chynlluniau gwaith a ddarparwyd gan ysgolion; a
- thrafodaethau â grwpiau plant a phobl ifanc.

Cefndir

5 Mewn adroddiad diweddar ar “Freedom’s Orphans: Raising Youth in a Changing World”, mae’r Sefydliad er Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn nodi mai pobl ifanc yn eu harddegau ym Mhrydain yw’r rhain mwyaf rhywiol weithredol yn Ewrop. Mae’r adroddiad yn datgan bod dau ddeg pump y cant o bobl ifanc yn rhywiol weithredol cyn eu bod yn 16 oed ac ni wnaeth bron i un o bob tri o bobl ifanc 15 oed ddefnyddio condom yn ystod eu cyfathrach rywiol ddiwethaf. Mae’r adroddiad hefyd yn nodi bod iechyd rhywiol pobl ifanc yn eu harddegau gryn dipyn yn waeth nag ydoedd ddegawd yn ôl, gyda lefelau o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn codi’n sydyn.

6 Yn ogystal ag adroddiad y Sefydliad er Ymchwil Polisi Cyhoeddus, mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Yng Ngorllewin Ewrop, y DU sydd â’r gyfradd genedigaethau uchaf ymhlith merched yn eu harddegau. Mae ddwywaith cyfradd yr Almaen, deirgwaith yn uwch na Ffrainc a chwe gwaith yn uwch na’r Iseldiroedd. Mae cyfradd Cymru wedi bod yn gyson uwch na chyfradd Lloegr.’ Yn 2004, y gyfradd beichiogi ymhlith merched o dan 18 oed oedd 48 o bob 1000 ar gyfer merched rhwng 15 ac 17 oed.

7 Dylai’r ffeithiau hyn bryderu pob rhiant a gofalwr a phobl ifanc eu hunain. Dylai’r ffeithiau hefyd lywio ysgolion yng Nghymru mewn perthynas â’u ffyrdd o addysgu disgyblion ynglŷn â’r cyfrifoldebau a’r risgiau sy’n gysylltiedig, ac yn benodol, yr ystyriaeth y mae eu haddysgu yn ei rhoi i’r agweddau moesol ac emosiynol ar berthynas rywiol.

8 Mor ddiweddar â 2002, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod ‘llawer o ansicrwydd ynghylch beth yw addysg rhyw a pherthynas a sut dylid ei haddysgu.’ I fynd i’r afael â’r meysydd hyn o ansicrwydd, lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad ar addysg rhyw a pherthynas mewn ysgolion, Cylchlythyr 11/02, er mwyn annog ysgolion i fod yn fwy hyderus wrth ddarparu rhaglenni addysg cyfannol.

9 Nod yr arweiniad yn y Cylchlythyr oedd:

- egluro’r hyn y mae’n ofynnol i ysgolion ei wneud yn ôl y gyfraith;
- rhoi arweiniad ar rai o’r materion sy’n ymwneud â datblygu polisi ar addysgu ynghylch rhyw a pherthynas;
- dangos sut dylid addysgu rhyw a pherthynas yn y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh);
- rhoi arweiniad i ysgolion ac athrawon ar rai o’r materion sensitif y gallai fod rhaid i ysgolion fynd i’r afael â hwy wrth addysgu ynghylch rhyw a pherthynas;
- amlinellu rhai strategaethau ymarferol ar gyfer addysgu;
- pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â rhieni a’r gymuned ehangach; a
- mynd i’r afael â rhai o’r materion sy’n ymwneud â chyfrinachedd.

Prif ganfyddiadau

10 Mae'r darlun ledled Cymru o ran effaith addysgu addysg rhyw a pherthynas yn gymysg iawn. Ers cyhoeddi'r fframwaith ABCh a Chylchlythyr 11/02, bu cynnydd yn ymwybyddiaeth ysgolion o arfer effeithiol wrth addysgu rhyw a pherthynas a'r ffordd y dylid cydlynu a chyflwyno hyn. Mae rhai ysgolion yn adolygu ac yn diweddaru eu harfer ond mae llawer heb wneud hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r agweddau moesol ac emosiynol.

11 At ei gilydd, ceir amrywiadau eang yn ansawdd yr addysgu. Mae lleiafrif o ysgolion yn addysgu addysg rhyw a pherthynas i safonau uchel, ac yn cyflwyno eu rhaglenni yn effeithiol ac mewn ffordd gydlynus, trwy wersi gwyddoniaeth, ABCh ac addysg grefyddol. Mae gweddill yr ysgolion yn tueddu i ddibynnu ar sesiynau unigol sy'n darparu gwybodaeth ffeithiol sylfaenol ond gydag ychydig iawn o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau gwirioneddol am faterion moesol ac emosiynol. Yn ychwanegol, ychydig iawn o ysgolion sy'n ystyried barn disgyblion wrth gynllunio eu rhaglenni.

12 Caiff agweddau staff effaith fawr iawn ar gyflwyno addysg rhyw a pherthynas mewn ysgolion. Lle mae staff yn hyderus ac wedi'u hyfforddi'n dda, caiff addysg rhyw a pherthynas ei chyflwyno yn dda. Fodd bynnag, nid oes gan y mwyafrif o ysgolion athrawon sydd â'r wybodaeth, y medrau na'r hyder priodol ar gyfer addysgu a dysgu da yn y maes hwn. Mewn rhai achosion, mae barn gul llywodraethwyr, penaethiaid ac weithiau rhieni, ynglŷn â pha agweddau ar addysg rhyw a pherthynas y dylid eu haddysgu i ddisgyblion, yn rhwystro'r broses o gyflwyno rhaglenni effeithiol sy'n bodloni'r cyngor yn y Cylchlythyr. Gall hyn fod trwy awydd y grŵp hwn i amddiffyn disgyblion fel plant, yn hytrach na chaniatáu iddynt ddatblygu yn oedolion ifanc.

13 Mewn lleiafrif bach o ysgolion cynradd, o ganlyniad i arfer dda, mae disgyblion yn wybodus iawn ac yn dod yn fwy hyderus ac ymwybodol o'r materion. Maent yn dangos hyder wrth allu ymdrin ar sail ddamcaniaethol gyda dewisiadau yn ymwneud â rhyw a pherthynas. Fodd bynnag, mae tua thraean o ysgolion cynradd yn osgoi addysgu agweddau ar addysg rhyw a pherthynas, ar wahân i'r prif ffeithiau ynghylch glasoed. O'r traean hwnnw, mae llawer yn gadael hyfforddiant ffeithiol o ran hylendid personol a'r glasoed yn gyfan gwbl i nyrs ysgol Ymddiriedolaeth y GIG mewn sesiynau ar eu pen eu hunain ym Mlwyddyn 6.

14 Yn y sector uwchradd, gellir nodi nifer o nodweddion da:

- Lle mae ABCh wedi'i chynllunio'n dda ac yn rhan integredig o'r cwricwlwm uwchradd cyfan, caiff disgyblion eu helpu yn gynyddol i ddatblygu hyder wrth feddwl, gwrando a siarad am ryw a pherthynas. Mae'r gwaith hwn yn codi eu hymwybyddiaeth ac yn gwella'u hunan-barch wrth ddelio'n ddamcaniaethol â sefyllfaoedd anodd a gwneud dewisiadau pwysig.

- Mae'n well gan ddisgyblion wersi a gyflwynir gan asiantaethau allanol fel gweithwyr iechyd rhywiol proffesiynol, neu gan staff ABCh dynodedig sy'n hyderus yn eu cyflwyno.

- Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn cael amser gwersi ABCh dynodedig, lle cyflwynir y fframwaith trwy ddull modiwlaidd sy'n cael ei wella gan gyfranogiad gweithwyr iechyd cymunedol proffesiynol.

17 Er gwaethaf y darlun cadarnhaol hwn mewn ysgolion uwchradd, mae'r arfer gyfredol yn cynnwys nifer o gyfyngiadau:

- Nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn o Flwyddyn 11 ac yn hŷn wedi elwa ar raglen addysg rhyw a pherthynas gynhwysfawr ac ychydig iawn o wersi y maent wedi'u cael, os o gwbl, i godi ymwybyddiaeth am faterion fel heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, atal cenhedlu ac erthyliad.

- I lawer o ysgolion uwchradd, mae'r arfer o addysgu rhyw a pherthynas trwy 'ddiwrnodau iechyd' unigol yn golygu nad oes digon o amser yn cael ei roi i ddisgyblion drafod agweddau moesol ac emosiynol yr hyn a addysgir iddynt.

- Lle cyflwynir gwersi ABCh gan athrawon nad ydynt yn arbenigol, nid yw staff yn hyderus, neu maent yn teimlo gormod o embaras i addysgu rhyw a pherthynas a chaiff hyn effaith niweidiol ar ansawdd a nifer y gwersi a ddarperir.

18 Mae addysgu effeithiol hefyd yn cael ei rwystro mewn llawer o ysgolion oherwydd amser cyfyngedig. Gan nad yw'r Fframwaith ABCh yn statudol, nid yw gwersi weithiau'n cael eu haddysgu yn rheolaidd gan eu bod yn cael eu hystyried yn llai pwysig na'r rheiny ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mewn rhai achosion, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gallu mynychu gwersi addysg rhyw a pherthynas os ydynt yn dewis astudio cyfuniadau penodol o bynciau ar gyfer eu harholiadau, oherwydd cyfyngiadau yn yr amserlen.

19 Mewn llawer o ysgolion, nid yw'r broses o gyflwyno ABCh a'i heffaith, ac yn benodol addysgu rhyw a pherthynas, yn cael ei monitro yn effeithiol.

20 Mae yna ddiffyg llwyr bron o gysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran y rhaglen ABCh a chyflwyno addysg rhyw a pherthynas. Gydag ychydig eithriadau, nid yw cydlynwyr ABCh mewn ysgolion uwchradd yn cyfarfod â'u cydweithwyr cynradd i rannu a chyfnewid gwybodaeth.

21 Nid oes cydlynu ledled Cymru i sicrhau cysondeb wrth gynllunio strategaeth gyffredinol ar gyfer cyflwyno mentrau iechyd rhywiol, gan gynnwys cyflwyno addysg rhyw a pherthynas mewn ysgolion.

22 Er bod rôl hanfodol gan nyrsys ysgol, a gyflogir gan Ymddiriedolaethau GIG, wrth gyflwyno llawer o agweddau ar addysg rhyw a pherthynas yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes strategaeth gyffredinol i roi arweiniad i'w gwaith mewn perthynas â'r hyn y dylid ei gyflwyno mewn ysgolion ledled Cymru, fel mater o hawl.

23 Mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu strategaethau ar gyfer cyflwyno addysg rhyw a pherthynas, ond mae llawer yn dibynnu ar y pwyslais y mae ysgolion unigol yn ei roi ar addysg rhyw a pherthynas fel rhan o'u cwricwlwm.

24 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisïau cyfrinachedd, naill ai o fewn eu polisïau amddiffyn plant neu ABCh, sy'n ei gwneud yn glir nad yw athrawon yn gallu cynnig cyfrinachedd diamod i ddisgyblion os ydynt yn datgelu gwybodaeth sy'n destun

pryder. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion yn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar weithdrefnau amddiffyn plant fel bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn yn fanwl, pan ddaw staff yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant a allai godi yn ystod trafodaethau mewn gwersi addysg rhyw a pherthynas.

Argymhellion

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ystyried gwneud y fframwaith ABCh yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol;

A2 cydlynu'n strategol hawl i addysg rhyw a pherthynas mewn ysgolion ar sail Cymru gyfan; a

A3 chael deunyddiau enghreifftiol i gefnogi'r broses o addysgu rhyw a pherthynas yn effeithiol, yn enwedig yr agweddau emosiynol a moesol;

Mae angen i awdurdodau lleol:

A4 roi mwy o hyfforddiant ar gyfer ysgolion wrth gyflwyno'r agweddau emosiynol a moesol ar addysg rhyw a pherthynas;

A5 hwyluso dull cydlynus o ran addysg rhyw a pherthynas ar draws byrddau iechyd lleol, ymhlith nyrsys iechyd mewn ysgolion, gweithwyr ieuenctid, grwpiau theatr, sefydliadau pobl ifanc a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill; ac

A6 arwain wrth gydlynu cysylltiadau gwell rhwng cyfnod allweddol 2 a 3 ar gyfer addysg rhyw a pherthynas;

Mae angen i ysgolion:

A7 ystyried barn disgyblion wrth gynllunio neu ddiwygio rhaglenni addysg rhyw a pherthynas;

A8 lle bo'n bosibl, defnyddio arbenigwyr fel athrawon ABCh neu addysg grefyddol, i gyflwyno'r agweddau moesol, cymdeithasol ac emosiynol ar addysg rhyw a pherthynas;

A9 sicrhau bod addysg rhyw a pherthynas yn cael ei haddysgu fel rhan o raglen integredig yn hytrach na sesiynau 'unigol';

A10 monitro ac arfarnu effaith rhaglenni addysg rhyw a pherthynas ar agweddau ac ymddygiad disgyblion;

A11 addysgu pob agwedd ar addysg rhyw a pherthynas yn unol â'r arweiniad yng Nghylchlythyr 11/02 a chodi ymwybyddiaeth llywodraethwyr am arfer dda; a

A12 sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o gyfrinachedd a gweithdrefnau amddiffyn plant.

Cynllunio a pholisi mewn ysgolion

25 Mae llawer o ysgolion yn gyfarwydd â Chylchlythyr 11/02 ac maent yn dilyn yr arweiniad wrth ddatblygu ac ysgrifennu eu polisïau. Maent yn gweld bod y Cylchlythyr, pan ddefnyddir ef ar y cyd â'r fframwaith ABCh, yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â'r hyn y dylid ei addysgu ym mhob cyfnod allweddol, trwy egluro dealltwriaeth a disgwyliadau athrawon.

26 Lleiafrif bach o ysgolion yn unig sydd wedi cael hyfforddiant gan eu hawdurdodau lleol ar sut i ddatblygu polisi ac arfer ar gyflwyno addysg rhyw a pherthynas yn seiliedig ar gynnwys Cylchlythyr 11/02 a'r Fframwaith ABCh. Mewn llawer o achosion, y rheswm am hyn yw nad oes gan awdurdodau lleol arian i ddarparu hyfforddiant. Mae'r staff hynny sydd wedi cael hyfforddiant wedi canfod ei bod yn ddefnyddiol wrth eu helpu i greu polisïau ysgol.

27 Mewn ysgolion cynradd:

- er mai anaml y mae rhieni yn ymwneud â datblygu polisi, mewn ychydig dros hanner yr ysgolion, cânt wybod beth fydd yn cael ei addysgu i'w plant trwy lywodraethwyr sy'n rhieni, cymdeithasau rhieni ac athrawon, prosbectws yr ysgol neu lythyrau;

- lle ceir arfer dda, gwahoddir rhieni i weithdai i wylio'r fideos a fydd yn cael eu dangos i'w plant a chânt eu hannog i drafod y cynnwys a lleisio'u barn;

- ychydig iawn o rieni sy'n tynnu eu plant o wersi addysg rhyw a pherthynas ac mae'r rhan fwyaf yn fodlon i'r ysgol gymryd y cyfrifoldeb am addysgu dechrau'r glasoed, ac mewn rhai achosion, beichiogi a geni;

- naill ai oherwydd agweddau beirniadol llywodraethwyr a phenaethiaid, neu mewn rhai achosion, rhieni, mewn tua chwarter o ysgolion, mae addysgu wedi'i gyfyngu yn gyfan gwbl i destun newidiadau corfforol sy'n digwydd adeg y glasoed, trwy awydd y grŵp hwn i amddiffyn plant a gohirio eu datblygiad i fod yn oedolion ifanc;

- mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio sesiynau holi ac ateb i ddarganfod yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod am ryw a pherthynas, ond yn aml ni ystyrir gwybodaeth flaenorol disgyblion wrth gynllunio sesiynau dilynol; ac

- mae llawer yn cynllunio'r rhaglen gyfan addysg rhyw a pherthynas ymlaen llaw ac nid yw ei chyflwyno yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, er gwaethaf amrywiadau yng ngwybodaeth disgyblion.

28 Yn unol â'r arweiniad, mae nifer o grwpiau allweddol mewn ysgolion uwchradd yn cymryd rhan yn y broses o ffurfio polisi a chynllunio ar gyfer rhaglenni addysg rhyw a pherthynas. Mae'r rhain yn cynnwys llywodraethwyr, disgyblion, rhieni ac athrawon.

29 Bron ym mhob un o'r ysgolion uwchradd hynny y gwnaed arolwg ohonynt, mae llywodraethwyr wedi cymeradwyo polisi eu hysgol ar gyflwyno addysg rhyw a

pherthynas, ond ychydig iawn o gyfranogiad arall sydd ganddynt, er bod gan leiafrif o ysgolion uwchradd lywodraethwr dynodedig sy'n gyfrifol am ABCh. Yn yr arfer orau, mewn rhai ysgolion, mae cydlynwyr ABCh yn codi ymwybyddiaeth llywodraethwyr o addysg rhyw a pherthynas trwy gyflwyno deunydd adnodd a chynlluniau gwersi y mae llywodraethwyr wedyn yn eu trafod ac yn rhoi sylwadau arnynt.

30 Mewn lleiafrif bach o ysgolion uwchradd, lle ceir arfer dda, gofynnir i ddisgyblion arfarnu eu gwersi trwy holiaduron neu drwy roi ymatebion cyfrinachol, ac ystyrir eu barn pan fydd rhaglenni yn cael eu diwygio. Fodd bynnag, ychydig iawn o wna'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd i gynnwys disgyblion wrth gynllunio addysg rhyw a pherthynas ac ni ystyrir gwybodaeth flaenorol disgyblion. Mae lleiafrif o ysgolion yn dangos, wrth i'w cynghorau ysgol ddatblygu, y bydd mwy o gyfle i ddisgyblion roi gwybod beth yw eu barn am yr hyn a addysgir mewn gwersi ABCh gan gynnwys addysg rhyw a pherthynas.

31 Er nad yw rhieni yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisi, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi gwybod i rieni am yr hyn a fydd yn cael ei addysgu mewn addysg rhyw a pherthynas trwy lythyrau, y prosbectws ysgol, neu mewn rhai achosion, trwy'r CRhA neu lywodraethwyr sy'n rhieni. Ychydig iawn o rieni sy'n tynnu eu plant o wersi mewn addysg rhyw a pherthynas, ac maent yn fodlon i ysgolion gymryd cyfrifoldeb am yr agwedd hon ar addysg oherwydd ymddengys bod llawer o rieni yn teimlo gormod o embaras i siarad â'u plant am faterion rhywiol personol.

32 Mewn trafodaethau â disgyblion uwchradd, datgelodd llawer ohonynt nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'u rhieni am agweddau ar ryw a pherthynas yr ymdrinnir â hwy yn yr ysgol, naill ai oherwydd bod disgyblion yn teimlo embaras; oherwydd eu bod yn teimlo na fyddai gan eu rhieni ddiddordeb; neu oherwydd bod arnynt eisiau osgoi gwrthdaro ar faterion rhywiol.

33 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion ffydd cynradd yn addysgu unrhyw agweddau ar addysg rhyw a pherthynas. Gwneir hyn mewn cytundeb â'u hysgolion ffydd uwchradd partner ac mae'r ysgolion uwchradd yn sicrhau bod y glasoed, beichiogi, datblygiad a geni yn cael eu haddysgu ym mlynyddoedd 7, 8 a 9. Nid yw ysgolion ffydd uwchradd yn ymdrin ag agweddau ar addysg rhyw a pherthynas fel atal cenhedlu ac erthyliad mewn ffyrdd a argymhellir yn y Cylchlythyr. Fodd bynnag, maent yn ymdrin â'r agweddau hyn o safbwynt eu ffydd eu hunain.

34 Lle ceir arfer dda mewn cynllunio, mae athrawon yn datblygu cwricwlwm sbiral (lle ailystyrir pob agwedd ar y cwricwlwm ABCh bob blwyddyn i adeiladu ar ddysgu blaenorol) i addysgu pob un o'r deg agwedd ar y fframwaith ABCh, gan gynnwys rhyw a pherthynas trwy gydol cyfnod allweddol 3 a 4.

35 Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd, o Flwyddyn 11 ymlaen, wedi elwa ar raglen gynhwysfawr o ran addysg rhyw a pherthynas ac ychydig iawn o wersi y maent wedi'u cael, os o gwbl, i godi eu hymwybyddiaeth am faterion fel heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, atal cenhedlu ac erthyliad. Mae hyn yn sgil y ffaith nad oedd llawer o ysgolion yn addysgu addysg rhyw a pherthynas cyn cyhoeddi Cylchlythyr 11/02 a'r fframwaith ABCh.

36 Yn yr arfer orau ym mhob ysgol, mae addysgu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn seiliedig ar gynlluniau gwersi manwl sy'n ymdrin â phob grŵp blwyddyn a addysgir. Mewn achosion o'r fath, ceir dealltwriaeth dda o wybodaeth flaenorol disgyblion a gellir adeiladu ar y wybodaeth yn raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

37 Mewn llawer o ysgolion, lle na cheir cynllunio manwl, gall methu ystyried gwybodaeth flaenorol disgyblion am ryw a pherthynas, arwain at gyflwyno rhaglen addysgu gyda bylchau sylweddol o ran dealltwriaeth y disgyblion.

38 Ceir diffyg llwyr bron o gysylltiadau effeithiol yn y rhaglen ABCh ac addysgu rhyw a pherthynas rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Gydag ychydig eithriadau, nid yw cydlynwyr ABCh mewn ysgolion uwchradd yn cyfarfod â'u cydweithwyr cynradd i rannu a chyfnewid gwybodaeth. Yn ychwanegol, mae diffyg parhad o ran defnyddio nyrsys ysgol Ymddiriedolaeth y GIG ar draws cyfnod allweddol 2 a 3 yn golygu mai ychydig iawn o gyfle sydd ar gyfer meithrin cysylltiadau effeithiol.

Trefniadaeth y cwricwlwm ac addysgu

39 Ers cyhoeddi Cylchlythyr 11/02 a'r fframwaith ABCh, gwelwyd mwy o gynnydd yn ymwybyddiaeth ysgolion o arfer effeithiol wrth addysgu addysg rhyw a pherthynas a'r ffordd y dylid cydlynu a chyflwyno hyn. Mae rhai ysgolion yn adolygu ac yn diweddaru eu harfer, ond i lawer, mae hyn yn parhau yn flaenoriaeth.

40 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn addysgu bioleg sylfaenol addysg rhyw a pherthynas yn unol â'r argymhellion a nodwyd yn y Cylchlythyr ar gyfer cyfnodau allweddol gwahanol.

41 At ei gilydd, mae amrywiadau eang yn ansawdd yr addysgu. Mae lleiafrif o ysgolion yn addysgu addysg rhyw a pherthynas i safonau uchel, gan gyflwyno eu rhaglenni yn effeithiol trwy wersi gwyddoniaeth, ABCh ac addysg grefyddol. Mae gweddill yr ysgolion yn tueddu i ddibynnu ar sesiynau unigol sy'n darparu gwybodaeth ffeithiol sylfaenol ond yn cynnig ychydig gyfleoedd yn unig i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau priodol am yr agweddau moesol, cymdeithasol ac emosiynol.

42 Caiff agweddau staff effaith fawr iawn ar gyflwyno addysg rhyw a pherthynas mewn ysgolion. Lle mae staff yn hyderus ac wedi'u hyfforddi'n dda, cyflwynir addysg rhyw a pherthynas yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae diffyg addysgu arbenigol, ac mewn rhai achosion, barn rhy gul mewn perthynas â'r Cylchlythyr, ynglŷn â pha agweddau ar addysg rhyw a pherthynas y dylid eu haddysgu i ddisgyblion, yn rhwystro'r broses o gyflwyno rhaglenni effeithiol.

43 Mae lleiafrif o ysgolion cynradd yn osgoi addysgu agweddau ar addysg rhyw a pherthynas, ar wahân i'r glasoed, ac mae llawer yn gadael addysgu ynghylch hylendid personol a'r glasoed yn gyfan gwbl i nyrs ysgol Ymddiriedolaeth y GIG mewn sesiynau unigol ym Mlwyddyn 6. Fodd bynnag, yn yr arfer orau mewn ysgolion cynradd, lle mae rhaglenni ABCh effeithiol ar waith, mae disgyblion yn wybodus iawn ac yn dod yn fwy hyderus ac ymwybodol o faterion fel eu bod yn gallu gwneud dewisiadau perthnasol a phenderfyniadau synhwyrol wrth ymdrin â sefyllfaoedd sy'n cynnwys pwysau gan gyfoedion a bwlio.

44 Mewn ysgolion uwchradd:

- lle mae ABCh yn rhan o'r cwricwlwm sydd wedi'i hintegreiddio'n dda, caiff disgyblion gymorth i ddatblygu hyder wrth feddwl, gwrando a siarad am ryw a pherthynas, sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth a hunan-barch disgyblion wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd a gwneud dewisiadau pwysig;

- mae'n well gan ddisgyblion, a gallant adnabod, y gwersi ansawdd gwell a gyflwynir gan asiantaethau allanol neu gan staff ABCh dynodedig sy'n hyderus yn eu cyflwyno;

- i lawer, mae'r arfer o addysgu rhyw a pherthynas trwy 'ddiwrnodau iechyd' unigol, er enghraifft, yn golygu nad oes digon o amser yn cael ei ddarparu i ddisgyblion drafod yr agweddau moesol ac emosiynol ar yr hyn sy'n cael ei addysgu iddynt;

- lle caiff gwersi ABCh eu cyflwyno gan athrawon anarbenigol, nid yw staff mor hyderus, neu maent yn teimlo gormod o embaras i addysgu rhyw a pherthynas a chaiff hyn effaith niweidiol ar ansawdd a nifer y gwersi a ddarperir; ac

- mae addysgu effeithiol hefyd yn cael ei rwystro mewn llawer o ysgolion oherwydd amser cyfyngedig, a chan nad yw'r Fframwaith ABCh yn statudol, nid yw gwersi weithiau'n cael eu haddysgu yn rheolaidd gan eu bod yn cael eu hystyried yn llai pwysig na'r rheiny ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;

45 Yn yr arfer orau, caiff ysgolion wersi ABCh dynodedig bob wythnos neu bythefnos, lle cyflwynir y fframwaith trwy ddull modiwlaidd sy'n cael ei wella gan gyfranogiad asiantaethau allanol. Mewn rhai achosion, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gallu mynychu addysg rhyw a pherthynas os ydynt yn dewis astudio cyfuniadau penodol o bynciau ar gyfer eu harholiadau, oherwydd cyfyngiadau yn yr amserlen. Mewn rhai ysgolion, mae rhai disgyblion yn cael eu tynnu o wersi addysg rhyw a pherthynas neu ABCh er mwyn derbyn gwersi cerddoriaeth gan staff cerddoriaeth peripatetig. Mae'r trefniadau yma yn awgrymmu i ddisgyblion nad yw gwersi addysg rhyw a pherthynas neu ABCh yn bwysig.

46 Mae llawer o athrawon mewn ysgolion yn bryderus ynghylch effaith pwysau o'r tu allan ar ddisgyblion a'r agweddau mewn rhai cymunedau at stereoteipiau gwryw a benyw traddodiadol. Mae'r rhain yn ei gwneud yn anodd i ddisgyblion dorri'n rhydd oddi wrth stereoteipio er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ac annibynnol am ryw a pherthynas, hyd yn oed mewn achosion lle mae disgyblion wedi cael addysg rhyw a pherthynas o ansawdd da yn eu hysgolion.

47 Mae rhai ysgolion uwchradd yn manteisio ar gynyrchiadau gan gwmnïau 'theatr mewn addysg' i addysgu disgyblion ynglŷn ag agweddau ar ryw a pherthynas fel erthyliad. Mae'r perfformiadau hyn yn aml yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn cyflwyno dilemâu moesol ac emosiynol iddynt drafod. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd o'r fath ac yn eu hystyried yn werthfawr wrth ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Dangosir enghraifft o ddefnyddio'r strategaeth hon yn astudiaeth achos 1 isod.

Astudiaeth achos 1

Mae'r astudiaeth achos hon yn egluro'r defnydd o theatr mewn addysg wrth gyflwyno agwedd ar addysg rhyw a pherthynas.

Mewn awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, perfformiodd cwmni theatr "Beth ydw i'n mynd i'w ddweud wrth mam?" ("What am I going to tell mum?") ar gyfer pob un o ddisgyblion Blwyddyn 9. Ffocws y ddrama oedd cymeriad merch yn ei harddegau a ddaeth yn feichiog ond yr oedd ei chariad eisoes wedi ei gadael. Mae'r ddrama yn ymdrin â'i dilema ynghylch a ddylai gadw'r baban neu gael erthyliad. Mae hefyd yn dangos ymateb a dryswch ei chyn-gariad pan ddaw i wybod am y beichiogrwydd.

Mae'r ddrama yn dod i ben cyn i benderfyniad gael ei wneud i alluogi disgyblion i gymryd rhan mewn trafodaeth gyda'r actorion am y materion moesol a godwyd yn y ddrama o safbwynt y gwahanol gymeriadau gwahanol.

I asesu effaith y negeseuon, gofynnwyd i ddisgyblion lenwi holiadur yn gofyn iddynt roi sylwadau ar saw agwedd ar y cynhyrchiad.

Pan ddadansoddwyd y canlyniadau, roeddent yn dangos bod 100%* o'r merched a 91% o'r bechgyn yn ystyried y ddrama yn ddefnyddiol wrth godi eu hymwybyddiaeth am y materion yr ymdriniwyd â hwy. Fodd bynnag, dim ond 43% o'r merched a 22% o'r bechgyn a oedd wedi siarad â'u rhieni am y perfformiad. Dyfynnodd nifer sylweddol y canlynol yn rhesymau dros hyn:

- diffyg cyfathrebu cyffredinol â rhieni;
- rhieni ddim yn dangos diddordeb a;
- disgyblion ddim eisiau ennyn pregeth a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.

Nododd nifer o ddisgyblion nad ydynt yn cyfathrebu â'u rhieni oherwydd eu bod yn credu "nad oedd o unrhyw fusnes iddyn nhw". Ond eto, mae ymchwil yn dangos bod disgyblion yn fwy tebygol o ohirio cael rhyw am y tro cyntaf os ydynt yn trafod rhyw a pherthynas yn agored gyda'u rhieni.

At ei gilydd, roedd y dadansoddiad yn dangos bod y ddrama yn gyfrwng poblogaidd a pherthnasol i addysgu'r agwedd hon ar addysg rhyw a pherthynas. Fodd bynnag, roedd hefyd yn dangos bod drama o'r fath dim ond yn debygol o gael effaith sylweddol ar ymddygiad pobl ifanc, os yw'n rhan o raglen ehangach o addysg rhyw a pherthynas.

*Ystadegau wedi'u cymryd o astudiaeth ardal leol mewn awdurdod yng Ngogledd Cymru

48 Yn ogystal â defnyddio perfformiadau, fel a ddangosir uchod, mae llawer o awdurdodau lleol bellach yn defnyddio gweithwyr cymorth ieuenctid amser llawn neu ran-amser mewn rhai ysgolion uwchradd i roi cymorth cymheiriaid un-i-un a grŵp bach i ddisgyblion. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd a wnaed wrth ddatblygu mentrau cymorth cymheiriaid neu addysg cymheiriaid eraill mewn llawer o awdurdodau lleol neu ysgolion i gefnogi'r broses o addysgu addysg rhyw a

pherthynas. Gellir trefnu bod cymorth cymheiriaid ar gael pan fydd disgyblion neu bobl ifanc wedi cael eu hyfforddi i roi cymorth a chyngor i ddisgyblion eraill o oedran tebyg. Lle mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cyflwyno, cânt eu gwerthfawrogi gan y disgyblion sydd wedi'u hyfforddi i fod yn gynorthwywyr cyfoedion a chan y disgyblion y mae'r cynorthwywyr cyfoedion yn gweithredu fel ffrindiau deallus iddynt.

49 Mae'r astudiaeth achos isod yn egluro cymhlethdodau gweithio gyda mentora cyfoedion.

Astudiaeth achos 2

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos defnydd effeithiol o TGCh i hwyluso'r broses o fentora cyfoedion.

Mewn un AALl yng Nghymru, mae athrawes yn siarad â disgyblion Blwyddyn 10 mewn ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth am broblemau rhyw ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau.

Fel rhan o'i sgwrs, mae'r athrawes yn defnyddio CD o fam yn ei harddegau yn sôn am ei phrofiad o fod yn feichiog, rhoi genedigaeth a gofalu am y baban. Mae'r CD yn hyrwyddo'r neges yn rymus mai pobl ifanc gyffredin yw mamau yn eu harddegau. Mae'n dangos bod beichiogrwydd yn rhywbeth a allai ddigwydd i unrhyw un os ydynt yn penderfynu cael rhyw diamddiffyn. Mae'r CD yn amlygu'r ffaith nad yw rhywun bob amser yn cael fflat a budd-daliadau eraill yn sgil cael baban, a bod yn rhaid i'r teulu bob amser ddarparu'r holl gymorth ariannol sydd ei angen, i bobl ifanc o dan 16 oed. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth bod mamau yn eu harddegau yn gallu parhau â'u haddysg ar ôl cael baban ond nad yw hyn bob amser yn ddewis hawdd.

Mae'n anodd i famau yn eu harddegau weithredu fel addysgwyr cyfoedion am nad yw llawer yn dymuno dychwelyd i'r ysgol ac wynebu eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae defnyddio'r CD yn ffordd effeithiol o gyfleu realiti beichiogrwydd a gofalu am faban i bobl ifanc yn eu harddegau.

50 Mae rhai disgyblion oedran uwchradd yn mynychu clybiau ieuenctid lle mae gweithwyr ieuenctid neu siaradwyr o'r tu allan o bryd i'w gilydd yn sôn am agweddau ar addysg rhyw a pherthynas. Fodd bynnag, ychydig iawn o gysylltiadau, os o gwbl, a ddatblygwyd rhwng clybiau ieuenctid ac ysgolion uwchradd i roi darpariaeth gydlynus.

Gweithio gyda'r gymuned ehangach

51 Trwy ei dogfen bolisi 'Cymru: Gwlad Well', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu ei gweledigaeth a'i chyfeiriad strategol i wneud Cymru yn wlad iachach sydd wedi'i haddysgu'n well. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r ffordd y mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflawni hyn trwy gydweithio gwell ag asiantaethau fel llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd, canolbwyntio ar anghenion cymunedau ac unigolion.

52 Mae Cylchlythyr 11/02 yn pwysleisio nad yw cyflwyno addysg rhyw a pherthynas yn gyfrifoldeb i ysgolion yn unig. Gellir cyflwyno elfennau o'r addysg yma hefyd gan ystod o bobl o'r gymuned ehangach. Mae gan y bobl hyn, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, addysgwyr cymheiriaid ac ymwelwyr, lawer i'w gynnig ar bob lefel o ran cynllunio a chyflwyno addysg rhyw a pherthynas. Maent yn dod â safbwynt newydd ac yn cynnig gwybodaeth, profiad ac adnoddau arbenigol.

53 Ar lefelau lleol, mae cynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd wedi cael ei integreiddio trwy greu byrddau iechyd lleol i sefydlu dull aml-asiantaeth, gan gynnwys darparu mentrau iechyd rhywiol ar y cyd. Fodd bynnag, ni cheir cydlynu cenedlaethol i sicrhau cysondeb wrth gynllunio strategaethau awdurdod lleol cyffredinol ar gyfer cyflwyno mentrau iechyd rhywiol, gan gynnwys cyflwyno addysg rhyw a pherthynas mewn ysgolion, ar sail Cymru gyfan.

54 Mae byrddau iechyd lleol wedi sefydlu grwpiau strategaeth iechyd rhywiol i gydlynu dull aml-asiantaeth i faterion iechyd rhywiol. Nid oes gan y grwpiau hyn bob amser gynrychiolydd o'r sector addysg ar wahân i gydlynydd 'ysgolion iach'. Caiff y cydlynwyr hyn eu cyflogi, mewn rhai achosion, gan y bwrdd iechyd lleol ac mewn achosion eraill, gan yr awdurdod lleol. Lle cânt eu cyflogi gan y bwrdd iechyd lleol, mae hyn weithiau'n arwain at ddiffyg cyfranogiad yr awdurdod lleol wrth gynllunio addysg rhyw a pherthynas yn strategol mewn ysgolion.

55 Mae gan nyrsys iechyd ysgolion, a gyflogir gan Ymddiriedolaethau'r GIG, rôl allweddol wrth gyflwyno llawer o agweddau ar addysg rhyw a pherthynas yn y rhan fwyaf o ysgolion. Fodd bynnag, nid oes strategaeth gyffredinol i roi cyfeiriad i'w gwaith mewn perthynas â'r hyn a gyflwynir mewn ysgolion ledled Cymru, fel mater o hawl.

56 Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth gydlynu dull aml-asiantaeth ac maent wedi darparu hyfforddiant ar y cyd ar gyflwyno addysg rhyw a pherthynas, gan ddod ynghyd â gwahanol asiantaethau fel nyrsys Ymddiriedolaethau'r GIG a gweithwyr cymorth ieuenctid. Mae dull yma yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb o ran addysg rhyw a pherthynas ar sail awdurdod lleol cyfan.

57 Fodd bynnag, hyd yn oed lle ceir strategaeth awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno addysg rhyw a pherthynas, mae llawer yn dibynnu ar y pwyslais y mae ysgolion unigol yn ei roi ar addysg rhyw a pherthynas fel rhan o'u cwricwlwm.

58 Yn y cyd-destun hwn, mae llawer o ysgolion cynradd yn ymestyn ac yn atgyfnerthu eu gwaith mewn ABCh trwy'r fenter 'ysgolion iach', ond nifer fach yn unig sydd wedi

gosod targed ar gyfer addysgu rhyw a pherthynas, fel rhan o'r cynllun hwn. Mae'r fenter 'ysgolion iach wedi'i chynllunio i helpu ysgolion i addysgu disgyblion ynghylch manteision pob agwedd ar ffordd iach o fyw yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

59 Lle mae gan ysgolion darged addysg rhyw a pherthynas, gellir defnyddio'r fenter 'ysgolion iach' i roi ffocws i'w gwaith. Mae'r gofyniad i ysgolion gynnal eu lefel perfformiad uchel barhaus i gadw eu statws 'ysgol iach' yn helpu pan fyddant yn ailedrych ar eu gwaith mewn ABCh a'i adolygu.

60 Fel a nodwyd yn gynharach, mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn defnyddio gwasanaethau nyrs ysgol Ymddiriedolaeth y GIG i siarad â disgyblion am hylendid personol a'r glasoed, ac mewn ychydig iawn o achosion, i gyflwyno addysg rhyw sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw athrawon dosbarth yn cynnal sesiynau dilynol i'r rhain. Bron ym mhob ysgol gynradd, nid yw nyrsys Ymddiriedolaeth y GIG ac athrawon yn cydweithio digon i gynllunio'r broses o gyflwyno'r sesiynau hyn.

61 Mae sesiynau a arweinir gan nyrs ysgol Ymddiriedolaeth y GIG mewn ysgolion cynradd yn aml yn cael eu cyflwyno ym Mlwyddyn 6. Mae hyn yn rhy hwyr i lawer o ddisgyblion, sydd yn aml wedi bod trwy rai o'r newidiadau sy'n digwydd yn ystod cyfnod y glasoed. Mewn rhai ysgolion, roedd bechgyn a merched yn cael eu haddysgu mewn grwpiau ar wahân i osgoi embaras ymhlith disgyblion neu oedolion. Mae'r dull hwn yn atgyfnerthu'r syniad nad yw rhyw a pherthynas yn destunau y dylid eu trafod yn agored.

62 O'i gyferbynnu, fel dilyniant i sesiwn gyda nyrs ysgol Ymddiriedolaeth y GIG, gall arfer dda mewn ysgolion gynnwys cyfleoedd a gyflwynir yn ystod 'amser cylch' (lle trafodir teimladau a holir cwestiynau) a gwersi ABCh eraill, i ateb cwestiynau disgyblion mewn grwpiau, atgyfnerthu dysgu ac ymestyn eu dealltwriaeth o ryw a pherthynas.

63 Mae tua hanner o'r ysgolion uwchradd yn yr arolwg yn cymryd rhan yn y fenter 'ysgolion iach' ond nifer fach yn unig sydd wedi gosod targedau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno addysg rhyw a pherthynas.

64 Mewn ysgolion uwchradd, mae nyrsys a gyflogir yn yr ysgol a nyrsys Ymddiriedolaeth y GIG yn cymryd rhan mewn cyflwyno agweddau ar addysg rhyw a pherthynas fel atal cenhedlu, erthyliad a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, ond mae cydweithio ag ysgolion i gynllunio'r sesiynau hyn yn brin. Mae'r sesiynau hyn yn aml yn cynnwys cyflwyno gwybodaeth ffeithiol sylfaenol trwy ABCh neu 'ddiwrnodau iechyd' ac ni fydd sesiynau dilynol iddynt. Ychydig iawn o gyfle y maent yn ei gynnig i ddisgyblion drafod ac ystyried goblygiadau moesol, addysgol a chymdeithasol rhyw a pherthynas.

65 Yn ychwanegol, mae llawer o staff a disgyblion yn adrodd nad oes digon o amser gan nyrsys ysgol Ymddiriedolaeth y GIG i fod yn effeithiol yn y maes hwn. Nid yw'n anarferol canslo sesiynau addysg rhyw a pherthynas ar yr amserlen oherwydd pwysau eraill.

66 Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnal sesiynau galw i mewn a drefnir gan y nyrs ysgol, nyrs Ymddiriedolaeth y GIG neu feddyg lleol, lle gall disgyblion gael cyngor a chymorth. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn dda am roi gwybodaeth i ddisgyblion ynghylch ble gallant fynd am gymorth os oes ganddynt rywbeth i'w drafod.

67 Bellach, mae gan ryw hanner o ysgolion uwchradd naill ai weithiwr cymorth ieuenctid amser llawn neu ran-amser yn gweithio yn yr ysgol. Mae'r oedolion hyn yn bobl cyswllt defnyddiol o ran cael cyngor a chymorth, sydd weithiau'n cynnwys trafod materion rhyw a pherthynas.

68 Mae amrywiad eang yn natur ac ansawdd adnoddau ysgolion ar gyfer addysgu rhyw a pherthynas. Er bod rhai adnoddau ar gael trwy'r fenter 'ysgolion iach' nid yw hyn yn ddigon cyson ar draws awdurdodau lleol. Mae sawl ysgol yn defnyddio adnoddau, fel fideos sydd wedi dyddio ac sydd felly yn llai effeithiol wrth ennyn diddordeb disgyblion a datblygu eu gwybodaeth.

69 Yn gyffredinol ledled Cymru, mae elfennau o arfer dda mewn gweithio mewn partneriaeth, fel a ddisgrifir yn y Cylchlythyr, yn dechrau ymddangos. Er enghraifft, mae astudiaeth achos 3 yn egluro gweithgaredd cwricwlwm gydag ysgolion a bwrdd iechyd lleol yn gweithio gyda'i gilydd.

Astudiaeth achos 3

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos bod modd codi ymwybyddiaeth pobl ifanc am realiti cael babi yn ifanc.

Mae bwrdd iechyd lleol yn defnyddio 'babanod rhithwir' gyda phobl ifanc yn eu harddegau fel rhan o'u cwricwlwm rhyw a pherthynas. Mae'r rhain wedi'i rhaglennu i grïo i swnio fel baban go iawn.

Mae'r bobl ifanc yn eu harddegau sy'n cymryd rhan yn cael eu haddysgu ynglŷn â sut i adnabod a bodloni anghenion baban pan fydd yn crïo. Mae rhai o'r disgyblion yn mynd â'r baban rhithwir adref am bedwar deg wyth awr ac yn gofalu amdano fel pe bai'n faban go iawn. Er enghraifft, pe baent yn dymuno mynd allan, byddai'n rhaid iddynt gael rhywun i ofalu am y baban.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n fenywod, ond nid pob disgybl sy'n wryw, yn cymryd y profiad o ddifrif. Mae gorfod gofalu am y 'baban rhithwir' yn gwneud i lawer ohonynt sylweddoli am y tro cyntaf yr ymrwymiad a'r cyfrifoldeb sy'n ymwneud â darparu ar gyfer anghenion baban. Mae'r profiad yn helpu pobl ifanc i ddeall realiti'r hyn a allai ddigwydd os nad ydynt yn gohirio cael perthynas rywiol ac os ydynt yn cael rhyw diamddiffyn.

70 Mae llawer o waith i'w wneud o hyd i wella gweithio mewn partneriaeth gan bob asiantaeth mewn addysg rhyw a pherthynas yng Nghymru.

Rheoli ac arfarnu addysg rhyw a pherthynas

71 Mae Cylchlythyr 11/02 yn atgoffa ysgolion o'u dyletswydd statudol i gael polisi addysg rhyw ysgrifenedig cyfoes sy'n disgrifio sut y darperir addysg rhyw a pherthynas a phwy sy'n gyfrifol am ei darparu. Mae'r cylchlythyr hefyd yn amlygu'r ffaith fod angen adolygu polisïau ysgol yn rheolaidd ac amlinellu sut caiff addysg rhyw a pherthynas ei monitro a'i harfarnu yn yr ysgol.

72 Mae'r arfarniad hwn yn cadarnhau bod gan bron bob ysgol athro neu athrawon dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu eu rhaglen ABCh. Mae llawer o'r cydlynwyr hyn yn cymryd y prif gyfrifoldeb am ddatblygu polisi cyffredinol.

73 Mewn ysgolion cynradd:

- mae rhai cydlynwyr yn gweithio ar y cyd â phenaethiaid i ddatblygu polisïau ABCh ysgol gyfan, sy'n cynnwys addysg rhyw a pherthynas;
- nifer fach o gydlynwyr yn unig sy'n monitro ac yn arfarnu gwaith mewn addysg rhyw a pherthynas yn anffurfiol trwy drafodaethau staff ac archwilio gwaith disgyblion, i roi gwybod iddynt am lwyddiant eu haddysgu; ac
- y pennaeth sy'n aml yn ffurfio cyswllt â chymorth allanol ac yn ei gydlynu, yn bennaf gyda nyrs ysgol Ymddiriedolaeth leol y GIG.

74 Mewn ysgolion uwchradd:

- mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr yn cynnwys eu cydweithwyr, ac mewn rhai achosion, maent yn gweithio gyda'u hawdurdod lleol i ddatblygu polisi ar gyfer addysgu ABCh, gan gynnwys addysg rhyw a pherthynas;
- mae monitro ac arfarnu mewn rhai ysgolion yn effeithiol pan fo pob gwers ABCh ar draws yr ysgol, yn cael eu haddysgu gan y cydlynydd ABCh sy'n arbenigwr;
- lle mae staff eraill yn addysgu agweddau ar ABCh, mewn lleiafrif o ysgolion, cynhelir monitro effeithiol trwy drafodaethau staff, archwilio gwaith, arfarniadau gwersi disgyblion ac, o bryd i'w gilydd, arsylwi gwersi; ac
- mae'r cyswllt â rôl gwasanaethau allanol a'i chydlynu, fel arfer yn cael eu cynnal gan gydlynwyr ABCh sydd â chysylltiadau sefydledig ar y cyfan, yn enwedig gyda nyrsys Ymddiriedolaeth y GIG a gallant drefnu sesiynau effeithiol, ond unigol yn aml ar agweddau ar addysg rhyw a pherthynas.

75 Mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd, nid yw'r broses o gyflwyno ABCh a'i heffaith, yn enwedig addysg rhyw a pherthynas, yn cael ei monitro yn effeithiol. Fodd bynnag, yn yr arfer orau, mae cydlynwyr yn adolygu cynlluniau gwaith yn rheolaidd ac maent yn eu diwygio yng ngoleuni adborth gan ddisgyblion, staff ac arsylwadau gwersi.

76 Mae llawer o gydlynwyr ABCh neu 'ysgolion iach' awdurdodau lleol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer cydlynwyr ysgolion i rannu a lledaenu gwybodaeth am agweddau ar ABCh, ac mae hyn weithiau'n cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar addysgu rhyw a pherthynas. Mae staff sy'n mynychu'r sesiynau hyn yn eu hystyried yn ddefnyddiol ac yn gyfle i gyfnewid syniadau. Hefyd, mae rhai awdurdodau lleol wedi rhoi hyfforddiant i athrawon ar ddefnyddio 'amser cylch' i helpu disgyblion i ddod yn well wrth siarad a meddwl am yr agweddau emosiynol a moesol ar ryw a pherthynas. Yn yr un modd, mae'r rhyngrwyd ac adroddiadau newyddion hefyd yn ffynonellau defnyddiol o wybodaeth gyfoes.

Datblygiad staff

77 Er nad yw Cylchlythyr 11/02 yn canolbwyntio'n benodol ar yr angen am ddatblygiad staff, ymddangosodd yr agwedd hon yn fater yn yr adroddiad 'Addysg Rhyw a Pherthynas: Gweithredu'r arweiniad yng Nghylchlythyr 11/02 mewn ysgolion yng Nghymru yn 2004 – 2005.' Roedd adroddiad 2004 - 2005 yn amlygu'r diffyg hyfforddiant i athrawon wella'u medrau mewn addysgu rhyw a pherthynas. Yn ystod yr arolwg a chyfnod ymweliadau'r cylch gorchwyl hwn yn 2006 – 2007, ymddangosodd nifer o'r un materion datblygiad staff unwaith eto.

78 Mae darpariaeth hyfforddiant ABCh ar gyfer staff yn brin i lawer o ysgolion cynradd ac uwchradd, oherwydd diffyg cyllid mewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, lle mae awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant ar gyfer cydlynwyr ABCh ysgolion, nid yw hyn bob amser yn ymdrin ag agweddau ar addysg rhyw a pherthynas.

79 I lawer o ysgolion, mae diffyg hyfforddiant yn atal datblygiad eu rhaglenni addysg rhyw a pherthynas, yn enwedig mewn perthynas â'r agweddau moesol ac emosiynol. Dyma'r agweddau nad yw llawer o staff yn hyderus yn eu cyflwyno. Yn ychwanegol, ychydig iawn o hyfforddiant sydd ar gyfer athrawon ABCh nad ydynt yn arbenigol ar wahân i'r hyn a ddarperir mewn rhai ysgolion gan eu cydlynydd ABCh eu hunain. Ychydig iawn a wna hyn, fodd bynnag, i oresgyn embaras a diffyg hyder y staff wrth addysgu agweddau penodedig ar addysg rhyw a pherthynas.

80 Mewn ymgais i oresgyn y diffyg hyder hwn, mae lleiafrif o ysgolion uwchradd bellach yn gofyn i staff nodi maes ABCh y maent yn teimlo'n hyderus i'w addysgu. Trwy ofyn i staff ymdrin â'r un testunau flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae ysgolion yn gobeithio y bydd hyn yn adeiladu'n raddol ar hyder staff ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu.

81 Mae llawer o ysgolion yn teimlo'n hyderus i gyflwyno addysg rhyw a pherthynas, dim ond pan fyddant yn cael cymorth gan asiantaethau allanol fel nyrs ysgol Ymddiriedolaeth y GIG, cwmnïau theatr addysgol neu arbenigwyr iechyd rhywiol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â'r hyn a gyflwynwyd gan ddarparwyr o'r tu allan i alluogi disgyblion i archwilio'r materion moesol ac emosiynol sy'n aml yn codi. Un o'r prif rwystrau at archwilio'r materion mewn addysg rhyw a pherthynas yn llawn yw amser cwricwlwm cyfyngedig ar gyfer ABCh. Gan nad yw'n un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae ysgolion yn aml yn ei ystyried yn llai pwysig felly.

82 Lle mae staff nad ydynt yn arbenigol yn gyfrifol am gyflwyno addysg rhyw a pherthynas, mae gwersi yn aml heb unrhyw ddiben nac effaith wirioneddol. Mae hyn yn aml oherwydd diffyg hyder ac embaras yr athro. Hefyd, mae disgyblion sy'n cael eu haddysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigol yn aml yn teimlo yn anghyfforddus ac yn teimlo embaras i drafod materion o natur rywiol gyda rhywun sy'n eu hadnabod mewn cyd-destun arall. Mewn rhai achosion, byddai'n well pe baent yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr allanol y gallent ei chael yn haws trafod materion sensitif gyda hwy ar lefel fwy amhersonol.

Cyfrinachedd ac amddiffyn plant

83 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisïau cyfrinachedd, naill ai o fewn eu polisïau amddiffyn plant neu ABCh y mae staff, disgyblion a rhieni yn ymwybodol ohonynt. Mae'r polisïau hyn yn ei gwneud yn glir nad yw athrawon yn gallu cynnig cyfrinachedd diamod i ddisgyblion os ydynt yn datgelu gwybodaeth sy'n peri pryder. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd bolisi penodol ar gyfrinachedd. Mae hyn yn golygu, pe bai datgeliad yn codi, y gallai diffyg polisi clir ei gwneud yn anodd i staff sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol ac yn gyson wrth ymdrin â materion a godir gan ddisgyblion.

84 Mewn rhai achosion, mae disgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd yn ystyried polisïau cyfrinachedd yn rhwystr i gyfathrebu oherwydd gall eu rhwystro rhag siarad ag aelodau o staff i gael cymorth a chyngor. Nid yw pob ysgol yn dda wrth roi gwybodaeth i ddisgyblion ynghylch pwy y gallant droi atynt, fel ffynhonnell amgen o gyngor, cymorth a gwybodaeth am faterion fel atal cenhedlu.

85 Caiff llawer o ysgolion gymorth da gan eu hawdurdodau lleol ar weithdrefnau amddiffyn plant. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant diweddaru blynyddol ar gyfer cydlynwyr amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael eu diweddaru yn rheolaidd ar weithdrefnau amddiffyn plant fel bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn yn llym pan ddaw staff yn ymwybodol o faterion amddiffyn plant a allai godi yn ystod trafodaethau mewn gwersi addysg rhyw a pherthynas.

Cyfeiriadau

Addysg Rhyw a Pherthynas mewn Ysgolion (Cylchlythyr 11/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2002)

Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Cyfnodau Allweddol 1 i 4 yng Nghymru (ACCAC 2000)

Addysg Rhyw a Pherthynas: Gweithredu'r arweiniad yng Nghylchlythyr 11/02 mewn ysgolion yng Nghymru 2004-2005 (Estyn Ebrill 2005)

Cymru: Gwlad Well – Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2003)

Freedom's Orphans: Raising Youth in a Changing World (Y Sefydliad er Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Tachwedd 2006)

Ystadegau ar gyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau 2004 (y diweddaraf sydd ar gael) o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru)